Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Dysgu Cymraeg Gwent
# Coleg Gwent
# Campws Pont-y-pŵl
# Heol Blaendar
# Pont-y-pŵl
# Torfaen
# NP4 5YE

## Dyddiad yr arolygiad:  Hydref 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Dysgu Cymraeg Gwent

Ad-drefnwyd y sector Cymraeg i oedolion a sefydlwyd canolfan genedlaethol a rhwydwaith o ddarparwyr yn ystod 2016. Sefydlwyd Dysgu Cymraeg Gwent yn ystod yr ad-drefnu hwn ac fe'i lleolir o fewn adran Dwyieithrwydd a Dysgu Cymunedol Coleg Gwent ym Mhontypŵl.

Mae Dysgu Cymraeg Gwent yn derbyn grant craidd o £1,156,465 yn ystod 2019/2020 gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddysgu Cymraeg i oedolion yn ardaloedd Casnewydd, Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen.

Mae Dysgu Cymraeg Gwent yn cyflogi tua 60 o staff, y mwyafrif yn diwtoriaid rhan amser, gydag 19 ohonynt yn staff craidd gan gynnwys 5 tiwtor amser llawn a 2 diwtor ffracsiynol. Y cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am arwain y darparwr yn weithredol ac yn strategol.

Mae Dysgu Cymraeg Gwent yn darparu ystod o gyrsiau ar lefelau Mynediad i Hyfedredd, gan gynnwys cyrsiau prif ffrwd Cymraeg i oedolion, Cymraeg yn y gweithle a Chymraeg i'r teulu. Mae hefyd yn darparu rhaglen o gyfleoedd dysgu anffurfiol i ddysgwyr ymarfer ac ymestyn eu medrau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yn ystod 2018/19, ymrestrodd tua 1400 o oedolion ar gyrsiau'r darparwr.

## Crynodeb

Mae staff Dysgu Cymraeg Gwent yn ymwybodol iawn o'r cyfraniad sydd ganddynt i'w wneud tuag at wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Trwy weithio tuag at y nod o 'fagu cariad, diddordeb a pharch ein dysgwyr a'r gymuned ehangach tuag at yr iaith a diwylliant Cymraeg', mae'r darparwr wedi llwyddo i greu ethos sydd yn hybu'r Gymraeg yn gymunedol trwy ardaloedd yr hen Went ac yn treiddio i bob agwedd ar ei waith.

Mae gan staff Dysgu Cymraeg Gwent ymrwymiad angerddol tuag at gadw dysgwyr a sicrhau eu bod yn parhau â'u gwersi a dod yn siaradwyr rhugl. Maent yn darparu cymorth unigol o safon uchel i'r dysgwyr sydd yn eu gofal. Mae bron pob tiwtor yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac maent yn gweithio'n ddiflino er mwyn cynorthwyo dysgwyr i oresgyn unrhyw rwystrau posib rhag dysgu'r iaith.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn meithrin perthnasoedd gwaith hynod gadarnhaol gyda'r dysgwyr. Maent yn addysgwyr brwdfrydig sydd yn llwyddo i ennyn diddordeb y dysgwyr yn effeithiol. Maent yn cyflwyno'r iaith mewn dull diddorol sy'n datblygu gwybodaeth y dysgwyr am y Gymraeg yn fedrus.

Mae Dysgu Cymraeg Gwent yn gymuned gynhwysol a chynhaliol o ddysgwyr brwdfrydig ac uchelgeisiol lle mae bron pob un ohonynt yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd dysgu ac yn gadarn iawn eu cymhelliant dros ddysgu Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn arddangos lefel uchel o ymroddiad ac maent yn gefnogol iawn i'w gilydd. Maent yn mwynhau eu dysgu ac mae llawer ohonynt yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau'n wych yn y dosbarthiadau. O ganlyniad, mae'r dysgwyr hyn yn gwneud cynnydd cryf tuag at gyflawni eu nodau personol o safbwynt dysgu siarad Cymraeg.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn datblygu eu medrau llafaredd hyd eithaf eu gallu

A2 Sicrhau bod pob tiwtor yn arfer y dulliau dysgu iaith mwyaf effeithiol

A3 Sicrhau bod canfyddiadau arsylwi tiwtoriaid yn fwy miniog a bod y rhaglen hyfforddiant yn mynd i'r afael ag agweddau ar addysgu sydd angen eu gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â'r gofal, y cymorth a'r arweiniad i ddysgwyr y mae'n ddarparu, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr Dysgu Cymraeg Gwent yn cyfranogi’n hynod frwdfrydig yn y ddarpariaeth a gynigir iddynt yn eu gwersi Cymraeg. Mae llawer ohonynt yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn llwyddiannus ac yn adeiladu’n hyderus ar eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth wrth ddatblygu eu medrau iaith ymhellach. O ganlyniad, mae’r dysgwyr hyn yn gwneud cynnydd cryf tuag at gyflawni eu nodau personol. Mae llawer o ddysgwyr ar y lefelau canolradd ac uwch yn defnyddio’r iaith yn ddigymell. Maent yn dechrau meistroli cystrawennau cymhleth yr iaith, yn deall ac yn egluro rheolau gramadegol ac yn eu cymhwyso’n gywir, ar y cyfan, wrth siarad ac ysgrifennu.

Yn y gwersi, mae bron pob un dysgwr yn gwrando’n astud ac yn deall iaith eu tiwtoriaid ac ymwelwyr yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf yn ynganu’r iaith yn dda ac yn ei defnyddio’n hyderus gyda’u tiwtoriaid. Mae llawer o ddysgwyr lefel mynediad yn gwneud cynnydd cyflym wrth ddysgu ac ymarfer patrymau elfennol, gan efelychu model iaith eu tiwtor yn fedrus. Mae’r dysgwyr hyn yn gwneud cynnydd cadarn wrth gymhwyso eu hiaith mewn sgyrsiau pâr neu grŵp byrfyfyr, er enghraifft wrth drafod eu cynlluniau ar gyfer gwyliau hanner tymor. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr mwy profiadol yn gwneud cynnydd pwrpasol iawn wrth ddatblygu eu medrau llafaredd. Maent yn cyfrannu’n estynedig ar lafar gan ddefnyddio ffurfiau berfau amrywiol yn gywir, ar y cyfan. Yn ogystal, maent yn deall prif negeseuon darnau gwrando heriol ac yn trafod y cynnwys yn hyderus. Mae ychydig o ddysgwyr, fodd bynnag, nad ydynt yn awyddus i siarad yn ystod sesiynau dosbarth cyfan. Mae’r dysgwyr hyn yn tueddu siarad Saesneg yn ddiangen ar brydiau ac, o ganlyniad, nid ydynt yn datblygu eu medrau Cymraeg hyd eithaf eu gallu.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau darllen yn gadarn. Yn unol â’u lefel, maent yn darllen ar goedd yn hyderus a chywir. Mae’r dysgwyr sydd newydd ddechrau dysgu’r iaith yn gwneud cynnydd priodol wrth ymarfer deialogau syml ac yna eu perfformio fel sgyrsiau naturiol. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr mwy profiadol yn gwneud cynnydd gwerthfawr wrth ddarllen, deall ac ymateb i ystod eang o destunau ffeithiol a ffuglen. Er enghraifft, wrth ddarllen darn o’r nofel ‘Milionêrs’ gan Marilyn Samuel, dangosant afael dda ar eirfa eang ynghyd â’r hyder i ymdrin â ffurfiau tafodieithol.

Ar draws y lefelau gwahanol, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau ysgrifennu effeithiol. Ar lefelau mynediad a sylfaen, maent yn ysgrifennu brawddegau byrion yn gywir, ar y cyfan, gan ymarfer patrymau a ddysgwyd mewn gwersi blaenorol. Mae llawer o ddysgwyr ar lefelau canolradd ac uwch yn ysgrifennu darnau personol a diddorol gydag elfen gref o gywirdeb, er enghraifft wrth ddisgrifio eu gwyliau tramor cyntaf. Yn yr achosion gorau, mae dysgwyr yn datblygu medrau ysgrifennu annibynnol cadarn wrth ysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr cais at yr Asiantaeth Gofod Ewropeaidd i gynrychioli Cymru ar daith i’r gofod neu wrth ysgrifennu llythyr at y cyngor yn cwyno am ddiffodd goleuadau stryd. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn gwneud gwallau sillafu a gramadegol sylfaenol wrth ysgrifennu. Yn aml, mae’r gwaith hwn yn llwyddo i gyfathrebu ystyr yn glir ond mae’n tueddu adlewyrchu’r un gwallau a wna’r dysgwyr wrth siarad.

Ar y cyfan, mae llawer o ddysgwyr Dysgu Cymraeg Gwent yn cwblhau eu cyrsiau yn llwyddiannus ar draws yr ystod o lefelau. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar gyrsiau uwch wedi cwblhau. Mae llawer o ddysgwyr yn mynychu cyrsiau atodol, er enghraifft Sadyrnau Siarad a chyrsiau penwythnos a haf. Mae nifer y dysgwyr cymwys sy'n dewis sefyll arholiadau Cymraeg i oedolion wedi cynyddu'n arwyddocaol dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2019, safodd tua hanner y dysgwyr cymwys arholiadau a llwyddodd y rhan fwyaf ohonynt i ennill cymhwyster.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae Dysgu Cymraeg Gwent yn gymuned gynhwysol a chyfeillgar o ddysgwyr brwdfrydig ac uchelgeisiol lle mae bron pob un ohonynt yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd dysgu. Mae bron pob dysgwr yn gadarn iawn eu cymhelliant dros ddysgu Cymraeg, boed fel mantais iddynt yn y gweithle neu wrth gefnogi a chyfathrebu ag aelodau o'r teulu. Teimla'r rhan fwyaf o ddysgwyr eu bod yn derbyn cefnogaeth dda gan diwtoriaid yn ystod gwersi ac mewn gweithgareddau y tu allan i'r dosbarth. Gwerthfawrogant fod eu tiwtoriaid yn dod i'w hadnabod yn dda ac yn sgil hyn yn ymateb yn dda i'w hanghenion personol yn ogystal â'u hanghenion dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod at bwy i droi am gymorth, os oes angen.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn arddangos lefel uchel o ymroddiad ac maent yn gefnogol iawn i'w gilydd yn y dosbarth. Mae'r dysgwyr hyn yn mwynhau eu dysgu ac mae llawer ohonynt yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau'n wych yn y gwersi. Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr berthynas waith gynhyrchiol gyda'u tiwtoriaid a llwyddant i gydweithio'n effeithiol gyda'u cyd-ddysgwyr yn y gwersi.

Mae llawer o ddysgwyr yn manteisio'n fuddiol ar gyfleoedd dysgu atodol ac anffurfiol er mwyn cefnogi eu dysgu. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ychydig o ddysgwyr yn cyfrannu'n frwd i weithgarwch y mentrau iaith lleol, neu'n mwynhau gwirfoddoli a chynorthwyo mewn sesiynau siarad anffurfiol fel y Clybiau Clonc. Mae'r penwythnos teuluol cenedlaethol i Langrannog yn daith boblogaidd, gyda dros hanner y dysgwyr sy'n mynychu yn ddysgwyr Dysgu Cymraeg Gwent.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi ac yn manteisio'n fuddiol ar y cyfleoedd a ddaw i'w rhan i gymryd cyfrifoldeb eu hunain dros drefnu gweithgareddau i ymarfer siarad Cymraeg. Mae ystod eang o weithgareddau dan ofal y dysgwyr eu hunain, gan gynnwys boreau coffi, clwb brecwast, clwb hanes lleol a chlwb dawns. Mae'r holl gyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i ryngweithio â'i gilydd yn Gymraeg ac yn ymestyn eu gwybodaeth am dreftadaeth ac etifeddiaeth Cymru. Ceir enghreifftiau nodedig o effaith yr holl weithgareddau hyn, gan gynnwys dysgwyr sydd yn aelodau blaenllaw o glybiau a chymdeithasau Cymraeg lleol. Mae tua hanner staff presennol y darparwr yn gyn-ddysgwyr.

Mae llawer o ddysgwyr yn gosod targedau pwrpasol i'w hunain gan ddefnyddio'r llyfr 'Defnyddio fy Nghymraeg'. Mae'r targedau hyn wedi eu seilio, ar y cyfan, ar ddefnyddio'r Gymraeg yn ymarferol mewn sefyllfaoedd perthnasol y tu allan i'r dosbarth. Mae llawer o'r dysgwyr yn cwblhau gwaith cartref yn rheolaidd ac mae'r rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn gwneud cynnydd pwrpasol yn eu gwersi.

Mae llawer o'r dysgwyr yn teimlo bod y darparwr yn gwrando arnynt ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddweud eu dweud a manteisio ar y cyfleoedd i ddylanwadu ar

y ddarpariaeth. O ganlyniad, er enghraifft, symudwyd gwersi o leoliadau anaddas ac addaswyd ystafelloedd dosbarth er mwyn creu amgylcheddau addas ar gyfer dysgu. Enghraifft nodedig arall o hyn oedd pan ddechreuodd y darparwr gynnig gweithgareddau am ddim i'r plant yn ystod Sadyrnau Siarad. Mae dysgwyr ar lefel hyfedredd yn cyfrannu'n effeithiol tuag at benderfynu ar gynnwys elfennau o'u cwrs. Er enghraifft, dewisodd un dosbarth astudio hanes y bardd Hedd Wyn yn fanwl.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn meithrin perthnasoedd gwaith hynod gadarnhaol gyda'r dysgwyr. Maent yn datblygu cymunedau dysgu cynhwysol a chynhaliol, ac yn eu cymell i ddysgu siarad Cymraeg yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn frwdfrydig ac yn ennyn diddordeb y dysgwyr yn effeithiol trwy drafodaethau am bynciau sydd o ddiddordeb iddynt, er enghraifft profiadau'r dysgwyr mewn gweithgareddau ychwanegol fel y Sadyrnau Siarad a'r Clybiau Clonc. Trwy hyn, maent yn cyflwyno'r iaith mewn dull diddorol sy'n datblygu gwybodaeth y dysgwyr am y Gymraeg yn fedrus. O ganlyniad, mae llawer o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn, yn mwynhau siarad Cymraeg ac yn falch o fod yn perthyn i gymuned glòs Gymreig.

Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid wybodaeth bynciol gadarn a gafael grefftus ar fethodoleg dysgu iaith effeithiol. Maent yn cyflwyno dulliau dysgu deniadol er mwyn ennyn a chynnal diddordeb y dysgwyr. Yn yr enghreifftiau gorau, mae tiwtoriaid yn chwarae cerddoriaeth artistiaid Cymraeg cyfoes ac yn eu hannog i fynd i'w gweld yn perfformio'n fyw. Mae llawer o'r tiwtoriaid yn paratoi ystod o weithgareddau sy'n herio'r dysgwyr yn effeithiol, gan sicrhau safonau uchel, ar y cyfan. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r dysgwyr ac yn eu cefnogi'n effeithiol er mwyn iddynt wneud cynnydd yn y dosbarth. Mewn ychydig o wersi, nid yw tiwtoriaid yn ddigon cyson yn eu defnydd o'r iaith darged ac nid ydynt yn paratoi dysgwyr ddigon trwy fodelu ac enghreifftio cyn dechrau gweithgaredd siarad. O ganlyniad, nid yw dysgwyr yn deall y tasgau'n llawn bob tro ac maent yn troi at siarad Saesneg.

Mae llawer o'r tiwtoriaid yn rhannu amcanion dysgu clir ac yn cwestiynu'n gelfydd er mwyn ymestyn a dyfnhau dealltwriaeth y dysgwyr. Maent yn datblygu'r gweithgareddau dysgu yn fedrus gan amrywio'r dulliau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ailadrodd geirfa a phatrymau a chwarae gemau iaith. Ar y cyfan, mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu medrau llafar rhan fwyaf y dysgwyr yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn rhoi cynnig arni heb ofni gwneud camgymeriad. Mae'r rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn defnyddio'r iaith darged yn llwyddiannus fel cyfrwng cyfathrebu er mwyn trochi'r dysgwyr yn y Gymraeg. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at gyfoethogi geirfa a datblygu patrymau iaith y dysgwyr. Mae'r gweithgareddau darllen amrywiol yn datblygu medrau'r dysgwyr yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt ymateb i gân werin draddodiadol 'Ble'r ei di?'. Mae llawer o'r tiwtoriaid yn datblygu medrau ysgrifenedig dysgwyr mwy profiadol yn effeithiol gan amrywio'r tasgau yn bwrpasol. Enghraifft dda o hyn yw bod ychydig o'r dysgwyr yn ysgrifennu erthygl yn fisol yn y papur lleol Cymraeg ar wahanol bynciau. Mae'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn datblygu'n bwrpasol wrth i leiafrif o diwtoriaid ei defnyddio'n briodol i hyrwyddo'r dysgu ymhellach.

Un o gryfderau'r ddarpariaeth yw cyflymder sionc y gwersi, wrth i fwyafrif y tiwtoriaid sicrhau rhediad llyfn i'r gweithgareddau er mwyn cynnal diddordeb y dysgwyr. Mae'r

gweithgareddau yn symud o'r naill i'r llall yn rhwydd ac yn adeiladu'n fwriadus ar ei gilydd er mwyn atgyfnerthu'r dysgu. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cefnogi'r dysgwyr yn ddoeth gan gynnig cynhaliaeth adeiladol ar gyfer dysgwyr unigol a grwpiau. Mae llawer ohonynt yn ymateb yn llwyddiannus i anghenion dysgwyr ac mae hyn, yn ei dro, yn cyfrannu'n fuddiol at ddatblygu eu hyder i siarad Cymraeg. Mae'r tiwtoriaid hyn yn darparu adborth llafar sy'n dangos i ddysgwyr sut i wella agweddau ar eu hiaith, er enghraifft rhedeg ffurfiau berfol a negyddu brawddegau'n gywir. Nid yw adborth ysgrifenedig lleiafrif y tiwtoriaid yn cynnig canllawiau adeiladol i'r dysgwr ddatblygu eu gwaith ymhellach.

Mae'r darparwr yn annog pob dysgwr i siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth gymaint â phosibl. Maent yn trefnu ac yn hysbysebu nifer eang iawn o weithgareddau dysgu atodol yn ychwanegol i'r gwersi ffurfiol, er enghraifft Sadyrnau Siarad misol a chyrsiau penwythnos ar draws y rhanbarth.

Mae'r darparwr yn trefnu amrediad eang o weithgareddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n sicrhau llwybrau dilyniant clir i ddysgwyr ddatblygu eu medrau iaith hyd eithaf eu gallu. Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi'r dysgwyr yn effeithiol ac yn eu cynorthwyo i ddeall bod y broses o ddysgu Cymraeg yn dechrau yn y dosbarth, ac yn datblygu ymhellach wrth iddynt ymarfer eu medrau yn y gymuned ehangach. Enghraifft nodedig o hyn yw'r daith a drefnwyd i Ogledd Cymru er mwyn i'r dysgwyr ymarfer eu Cymraeg wrth ymweld â llefydd fel amgueddfa Hedd Wyn, Ynys Llanddwyn a thaith trwy gyfrwng y Gymraeg o amgylch Caernarfon. Mae tiwtoriaid hefyd yn trefnu dyddiau thematig penodol, fel un am hanes boddi Cwm Tryweryn. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at ehangu gwybodaeth dysgwyr am hanes a diwylliant Cymru yn ogystal â'r iaith.

Caiff y ddarpariaeth ei marchnata'n llwyddiannus, wrth i lawer o diwtoriaid roi sylw amlwg i bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Trefnir bod y gweithgareddau yn hygyrch i'r dysgwyr a'u bod yn cyfateb i'w lefel. Maent yn bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr fel ei gilydd yn fwriadus ac, ar yr un pryd, yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn effeithiol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae Dysgu Cymraeg Gwent yn darparu arweiniad gwerthfawr i'w holl ddysgwyr sydd yn dylanwadu'n gadarnhaol iawn ar y cynnydd a wnânt, eu lles a'u hagweddau at ddysgu. Disgrifir yn glir beth gallant ei ddisgwyl gan y darparwr a beth yw disgwyliadau'r darparwr yn ogystal. Mae'r wybodaeth hon yn golygu bod y dysgwyr yn ymwybodol o'r cychwyn sut i fanteisio hyd yr eithaf ar eu gwersi Cymraeg. Cânt eirfa gychwynnol a syniadau ynglŷn â sut i ddechrau defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Darperir crynodeb o'r polisïau pwysig ynghyd â gwybodaeth am bwy i droi atynt am gymorth, os oes angen.

Mae gan staff Dysgu Cymraeg Gwent ymrwymiad angerddol tuag at gadw dysgwyr a sicrhau eu bod yn parhau â'u gwersi. Maent yn olrhain presenoldeb dysgwyr yn fanwl ac yn rheolaidd. Maent yn cysylltu ag unrhyw ddysgwr sydd yn colli ychydig o wersi er mwyn gweld beth gallant ei wneud i helpu. Gall hyn olygu cynnig iddynt drosglwyddo i wersi mewn lleoliadau neu ar adegau gwahanol neu gynnig sesiynau personol drwy gyswllt fideo. Mae'r fideo "Dal Ati" yn adnodd effeithiol ac anogol sydd yn targedu'r dysgwyr hynny sydd mewn perygl o roi'r gorau i'w cwrs. Cynigir telerau

ariannol cystadleuol i ddysgwyr ail-gofrestru mewn dosbarth y flwyddyn ganlynol ynghyd â'u helpu i fynychu digwyddiadau atodol buddiol ledled Cymru.

Mae bron pob tiwtor Dysgu Cymraeg Gwent yn darparu cymorth unigol o safon uchel i'r dysgwyr yn eu gofal. Mae tiwtoriaid yn sicrhau awyrgylch gynhaliol, bositif ac ysgogol lle mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn cyfrannu i'r gwersi heb boeni am wneud camgymeriadau. Maent yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac, fel rheol, yn cynnig adborth wedi ei anelu at anghenion pob un yn effeithiol.

Mae'r darparwr yn cynnig ystod o wybodaeth a chyfleoedd i ddysgwyr ddewis y cwrs mwyaf perthnasol ar eu cyfer. Maent yn dod i adnabod gallu'r dysgwyr yn fuan, ac yn annog dysgwyr i ystyried newid i gwrs mwy addas, os oes angen. Mae bron pob tiwtor yn cynorthwyo'r dysgwyr i osod targedau defnyddiol iddynt eu hunain yn dymhorol, gan eu gwerthuso yn rheolaidd. Maent yn defnyddio cynllun 'Defnyddio fy Nghymraeg' yn effeithiol i'r perwyl hwn. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae tiwtoriaid yn rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr osod eu camau dysgu nesaf ac mae hyn yn paratoi'r dysgwyr yn dda wrth geisio sicrhau parhad a dilyniant yn eu dysgu.

Mae'r darparwr yn gweithio'n agos gyda Mentrau Iaith a chynghorau lleol. Enghraifft nodedig o hyn yw sut y maent wedi creu partneriaeth agos gyda'r Groes Goch i ymateb i adroddiad a oedd yn nodi canran isel o deuluoedd ethnig sy'n anfon eu plant i addysg Gymraeg. Sefydlodd Dysgu Cymraeg Gwent wersi blasu'r Gymraeg i deuluoedd ffoaduriaid yng Nghasnewydd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r iaith. Mae hyn wedi arwain at gwrs amser llawn i'r rhieni. Maent nawr wedi sefydlu Cylch Ti a Fi i'r rhieni a'u plant ifanc.

Mae'r darparwr yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr fynegi eu barn yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Mae'r staff bob amser yn barod i wrando, ac anfonir holiadur ar-lein i'r dysgwyr yn dilyn pob cwrs atodol. Mae'r darparwr yn casglu gwybodaeth drwy holiaduron am y rhesymau y mae dysgwyr yn gadael eu cyrsiau er mwyn deall y rhesymau a'u denu i ailafael yn y dyfodol.

Mae gan y darparwr drefniadau da ar gyfer nodi ac ymateb i anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr. Mae cyfle i bob dysgwr lenwi ffurflen wrth ymuno â'r dosbarth i nodi unrhyw anghenion yn gyfrinachol. Mae'r darparwr wedi clustnodi aelod pwrpasol o staff i ofalu am anghenion addysgol arbennig dysgwyr, gan gysylltu â nhw i gynnig pob cymorth ar gyfer hwyluso eu profiad fel dysgwr. Pan fydd angen cymorth sydd y tu hwnt i allu'r aelod o staff, mae'r darparwr yn manteisio ar adnoddau Coleg Gwent i gynnig cymorth. O ganlyniad mae tiwtoriaid yn derbyn gwybodaeth ar sut i ddarparu'n addas ar gyfer y dysgwyr hyn yn eu dosbarthiadau. Mae trefniadau diogelu'r darparwr yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

'Magu cariad, diddordeb a pharch ein dysgwyr a'r gymuned ehangach tuag at yr iaith a diwylliant Cymraeg' yw un o brif nodau Dysgu Cymraeg Gwent. Mae'r darparwr yn cyflawni'r nod hwn yn hynod lwyddiannus ac wedi llwyddo i greu ethos sydd yn treiddio i bob agwedd ar ei waith. Mae'n sail gadarn i'w genhadaeth ac yn cydymffurfio'n llwyr â chynlluniau ac amcanion y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r darparwr yn ymwybodol iawn o'i gyfraniad tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n

canolbwyntio'n fuddiol ar greu siaradwyr newydd a'u cymathu â'r gymdeithas Gymraeg, ac mewn rhai achosion, mae'r siaradwyr newydd hyn yn creu rhwydweithiau ieithyddol gwerthfawr newydd. I'r perwyl hwn, mae'r darparwr, a dysgwyr, yn cydweithio'n ddiwyd â phartneriaid sy'n hybu'r Gymraeg yn gymunedol trwy ardaloedd yr hen Went.

Mae Pennaeth Dwyieithrwydd a Dysgu Cymunedol Coleg Gwent a'r adran honno yn cydweithio'n agos â'r darparwr i sicrhau bod blaenoriaethau strategol y coleg a'r darparwr yn cyd-fynd â'i gilydd yn fuddiol. Er enghraifft, mae'r darparwr yn chwarae rôl werthfawr drwy hybu dwyieithrwydd ar draws y coleg. Mae'r adran yn darparu cymorth cryf a her gadarn i'r darparwr gan ddwyn uwch-reolwyr i gyfrif yn briodol.

Mae rolau arweinwyr, rheolwyr a thiwtoriaid yn glir gyda swydd ddisgrifiadau a chyfrifoldebau addas. Mae staff ar bob lefel yn deall eu swyddogaethau'n dda ac yn ymwybodol o sut maent yn cyfrannu at waith y darparwr. Mae llinellau cyfathrebu effeithiol yn bodoli rhwng rheolwyr a thiwtoriaid er mwyn rheoli gwaith a chanfod barn staff. Mae'r darparwr yn rhoi cyfleoedd addas i'r holl staff gyfrannu at gynllunio strategol. Mae systemau atebolrwydd yn glir ac mae'r darparwr yn mynd i'r afael â materion tanberfformio yn briodol. O ganlyniad, mae'r darparwr wedi llwyddo i sefydlu a chynnal darpariaeth o ansawdd uchel.

Mae gan y darparwr systemau addas a thrwyadl ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella. Mae rheolwyr yn diffinio camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella o fewn amserlenni priodol a realistig ac yn dyrannu cyfrifoldeb am eu cyflawni'n briodol. Mae rheolwyr yn dadansoddi data perfformiad yn ofalus ac yn ymgymryd ag ystod ddefnyddiol o arsylwadau, ymweliadau bugeiliol a chynlluniau mentora. Defnyddir gwybodaeth o'r holl ffynonellau hyn yn effeithlon i adnabod anghenion hyfforddiant. Darperir amrywiaeth fuddiol o sesiynau wedi'u teilwra ar gyfer tiwtoriaid penodol er mwyn mynd i'r afael ag agweddau addysgol sydd angen eu gwella.

Ar y cyfan, mae gan y darparwr ddealltwriaeth briodol o'i gryfderau a'i feysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, er trylwyredd y gweithdrefnau hyn, nid yw'n adnabod meysydd i'w gwella ynglŷn ag addysgu bob tro. O ganlyniad, nid yw'r rhaglen hyfforddiant a dargedwyd yn effeithio'n ddigon cadarnhaol ar arferion addysgu ychydig o diwtoriaid sydd angen gwella.

Ar y cyfan, mae rheolwyr wedi creu diwylliant cynhwysol i gefnogi dysgu proffesiynol eu staff. Mae'r rhan fwyaf o staff addysgu yn dilyn rhaglen hyfforddi bwrpasol ar ddysgu ac addysgu ac i wella eu medrau ar gyfer defnyddio technoleg yn effeithiol wrth addysgu. Mae cydlynwyr a thiwtoriaid yn rhannu arfer dda ac adnoddau gyda'i gilydd yn fuddiol. Mae'r darparwr wedi datblygu gweithdrefnau defnyddiol i raeadru gwybodaeth a cheisio sicrhau bod pob tiwtor yn elwa ar y rhaglen. Fodd bynnag, nid yw ychydig o diwtoriaid yn mynychu'r cyfleoedd hyfforddiant yn ddigon rheolaidd.

Mae'r darparwr yn rheoli ac yn defnyddio cyllid yn effeithiol. Mae'r trefniadau ar gyfer monitro gwariant yn ofalus yn rhoi sicrwydd cyllidol i'r darparwr ac yn ei alluogi i fuddsoddi a blaenoriaethu gwariant yn unol ag amcanion cenedlaethol y sector. Er enghraifft, mae'r darparwr yn rhoi cymorthdaliadau i deuluoedd i fynychu penwythnos Cymraeg i'r teulu yn Llangrannog ac yn buddsoddi mewn offer technoleg gwybodaeth ac adnoddau dysgu. Yn ogystal, mae'r darparwr wedi gwneud

penderfyniad strategol bwriadus i fuddsoddi yn ei weithlu er mwyn proffesiynoli'r ddarpariaeth, er enghraifft trwy gyflogi tiwtoriaid amser llawn yn ddiweddar. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr ac ystyried barn tiwtoriaid a staff drwy eu hymatebion holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â phennaeth y darparwr, cynrychiolydd y corff rheoli/corff llywodraethol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol), a thiwtoriaid i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn ymgysylltu â dysgwyr i drafod eu gwaith ac i glywed eu barn am agweddau amrywiol ar y darparwr
- yn cyfarfod â grwpiau o ddysgwyr, fel cynrychiolwyr grwpiau llais y dysgwr
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau ac yn ymgymryd â theithiau dysgu i arsylwi dysgwyr mewn gwersi ac mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynlluniau gwella'r darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd dysgwyr, cofnodion o gyfarfodydd staff a chyfarfodydd y corff rheoli/llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/01/2020